

DOLEN Y TAB – 58

4–5 Mehefin 2021

Oedfa Rithiol Sul 6 Mehefin

Oedfa ardal yw'r arlwy ar gyfer y Sul, a chawn gwmni rhai o aelodau'r Tabernacl sy'n byw ym mhentref Pentyrch – yn blant ac oedolion. Bydd cyfle hefyd i glywed Côr Godre'r Garth yn canu'r emyn 'Ar fôr tymhestlog'.

Gweddill Oedfaon Mehefin

- 13 Geraint Rees a'i ffrindiau.
20 Rhiannon a Gareth Humphreys.
27 Lyn West a'r teulu.

Hefyd ddydd Sul 6 Mehefin

12:00 Oedfa Radio Cymru

Dan ofal y Parchg. Geraint Morse, Treletert.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

A hithau'n Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr, yr wythnos hon bydd Nia'n cwrdd â'r Parchedig Robert Townsend, offeiriad sy'n torchi llewys i achub pobl mewn trybini gyda chriw bad achub Biwmares.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

Brysiwch Wella

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Beti a Gwilym Treharne. Bu Beti yn yr ysbyty yn gynharach yn yr wythnos, ond bellach mae hi wedi dychwelyd adref ac yn gwella. Yn y cyfamser mae Gwilym wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty brawn ddoe (lau) ac yn gobeithio dychwelyd i Nant y Felin cyn diwedd yr wythnos.

Yn yr un modd, estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan hefyd i Dafydd Roberts yn dilyn y lawdriniaeth a dderbyniodd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Dyma'r ail aelod o deulu Maes yr Haul i gael tynnu'u 'pendics ym misoedd y gwanwyn eleni, gan i lfan yntau dderbyn yr un driniaeth ychydig wythnosau'n ôl.

Campus, Huw!

Llongyfarchiadau i Huw Griffiths ar ei lwyddiant yn derbyn yr ail wobwr yng nghystadleuaeth y Prif Lenor yn Eisteddfod T. Roedd y gystadleuaeth yn gofyn am ddarn o ryddiaith greadigol, a'r beirniad oedd y nofelydd profiadol Caryl Lewis. Tipyn o gamp, felly, o gofio bod y gystadleuaeth yn agored i rai rhwng 14 a 25 mlwydd oed, a Huw yn parhau i fod yn ddisgybl yn Ysgol Garth Olwg. Hefyd llwyddodd Huw i gipio'r ail safle yn y gystadleuaeth llefaru am ei ddehongliad ystyrion o 'Gweddi'r Terfyn' gan Saunders Lewis.

Caffis Eidalaid De Cymru

Mae Canolfan Gartholwg yn trefnu sgwrs dros Zoom am draddodiad y Caffis Eidalaid yn ne Cymru gyda Huw M, a hynny nos Fercher 16 Mehefin i ddechrau am 7.30pm. Mae'r digwyddiad am ddim, a bydd yn para dim mwy nag awr.

Bydd angen cofrestru ymlaen llaw i sicrhau lle drwy ddilyn y ddolen:

<https://bookwhen.com/gartholwg/e/ev-s01o-20210616193000>

Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21

'HALELIWIA AM HERESI'

3.00 p.m. dydd Sul 27 Mehefin
gyda

JOHN BELL

awdur, cerddor, pregethwr a darlledwr o gymuned Iona, yr Alban



I gofrestru, ebstiwrch:
cristnogaeth21@gmail.com
CYN 18 Mehefin

Byddwch yn derbyn manylion sut i dalu,
a dolu i ymuno ar Zoom

Cyfyngir nifer y dyfeisiau i 100
Tâl ymuno: £8 y ddyfais



Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth
15 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw fater i'w godi, yna
cysylltwch â'r Ysgrifennydd:

(gehpengwern@yahoo.co.uk; 01443 225205 /
07710 237327) erbyn nos Lun 14 Mehefin fan
bellaf.

Dyma'r Undeb

Ddechrau'r wythnos cyrhaeddodd rhifyn cyfredol *Dyma'r Undeb*, sef cylchgrawn chwe-misol Undeb yr Annibynwyr. Anfonir dau gopi caled i bob eglwys, ond fel arfer bydd modd ei weld ar wefan yr enwad hefyd (annibynwyr.org); gan nad yw wedi ymddangos yno eto, dyma damaid i aros pryd. Yn briodol iawn, thema ganolog tri o'r chwe chyfraniad y tro hwn yw trafod sut orau i wynebu'r her sy'n ein haros wrth baratoi i ailagor drysau'r capeli.



Un sy'n awyddus iawn i gofleidio'r cyfle fydd yn cynnig ei hun pan ddaw'r pandemig i ben yw Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, sy'n datgan: *'Y mae cylchoedd mecanyddol, di-angerdd ein hymlyniad at adeiladau, ein caethiwed i drefn ac arferiad, a'n teyrngarwch di-ildio i draddodiad ein hynafiaid wedi ei chwalu . . . [felly] Does bosib y bydd eglwysi . . . yn dymuno llithro'n ôl i annibyniaeth ynysig, gyndyn ei pherthynas â neb y tu hwnt i'w ffiniau.'* Mae'n cloi ar nodyn mwy cadarnhaol: *'Y mae gennym gyfle euraid yn sgil chwalfa'r flwyddyn ddiwethaf i fod yn "Eglwys gyfan, trwy'r byd cyfan, yn ymwneud â bywyd yn ei holl gyfanrwydd".'*

Erthygl arall sy'n sicr o fod o ddiddordeb i ni yng Nghapel y Tabernacl yw'r un yn dwyn y teitl *'Beth yw bod yn arloesol?'* gan Robin Samuel, y swyddog sydd yng ngofal rhaglen Arloesi a Buddsoddi'r Undeb. Wrth fynd ati i gynnig ateb i'w gwestiwn ei hun, mae'n cyfeirio at bump o nodweddion 'cynulleidfa genhadol' a restrir gan CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang), ac yn disgrifio gwaith rhai eglwysi sydd *'wedi camu allan o'u "cylchfa cysur" gan weld eu hunain fel "cynulleidfaoedd cenhadol" ac nid fel adeiladau ar gyfer yr ychydig ffyddlon'*. *A fentrwn ni ddweud, eglwysi sy'n ceisio bod yn debycach i'r eglwysi mae Duw wedi ein galw i fod?'*

'Gweithio gyda'n Gilydd' yw teitl cyfraniad Julie Edwards, Swyddog Hyfforddiant a Diogelu y Panel Diogelu Cydenwadol. Wrth baratoi am y cyfnod ôl-bandemig, mae'r Panel wedi bod wrthi'n ddiwyd yn cynllunio i wynebu'r heriau newydd sydd wedi dod i'r amlwg dros gyfnod argyfwng Covid-19, megis y cynnydd mewn camdriniaeth domestig a'r pryder bod y plant mwyaf bregus yn fwy agored nag erioed i niwed. Ymhlith y datblygiadau sydd ar y gweill ganddynt crybwyllir cynyddu maint y tîm o hyfforddwyr gwirfoddol; annog pob eglwys i fabwysiadu Datganiad Polisi a phenodi cydlynnydd diogelu lleol; a chynnal Sul Diogelu Grwpiau Bregus er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth eglwysi o bwysigrwydd y maes.



Etholiad Darpar-Lywydd Undeb yr Annibynwyr, 2021

Eleni mae dau enw ar y papur pleidleisio i ddewis Darpar-lywydd am dymor o ddwy flynedd cyn olynu'r Parchg. **Beti-Wyn James** y bydd ei thymor fel Llywydd yn dechrau yng Nghyfarfod Blynnyddol yr Undeb ddiwedd y mis. Fel pob eglwys o fewn yr enwad, mae gan Gapel y Tabernacl hawl i fwrw pleidlais dros un o'r ddau ymgeisydd. Mae angen dychwelyd y papur pleidleisio at Ysgrifennydd Gweinyddol yr Undeb erbyn 18 Mehefin ac felly bydd cyfle i ymgynghori gyda'r aelodau dros y 12 diwrnod nesaf. Yn y cyfamser, gallwch ddarllen negeseuon a luniwyd gan y ddau:

Y Parchedig Carwyn Siddall

Fe'm codwyd i'r weinidogaeth yn Saron, Bodedern, ac rwy'n weinidog Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch ers 2012. Pan oeddwn yn perthyn i Gyfundeb Môn, cefais gyfle i fod ar is-banel ieuencid yr Undeb, ac yn un o'r cynrychiolwyr ar y Cyngor, ac yn ddiweddar bûm yn ysgrifennydd yr Adran Tystiolaeth ble cefais gyfle i ysgogi a datblygu'r cynllun Bugeilio Cefn Gwlad. Yng Nghyfundeb Meirion, rwy'n Gadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol, a hynny'n cynnig cyfle i gydweithio â'r Undeb gyda gwahanol faterion. Cynrychiolais ieuencid yr Undeb yng nghynhadledd CWM yn Samoa Americanaidd yn 2012, a bûm yn cynrychioli'r Undeb mewn sawl gweithgaredd a gynhaliwyd gan CWM wedi hynny. Cefais fy ethol yn ymddiriedolwr ac aelod o'r Pwyllgor Gweinyddol yn 2012 a 2019.

Y Parchedig Jeff Williams

Treuliais ddeunaw mlynedd yn y weinidogaeth fugeiliol a saith mlynedd ar hugain yn swyddog gyda Chymorth Cristnogol. Bûm yn ysgrifennydd ac yn gadeirydd Adran Dinasyddiaeth Gristnogol yr Undeb ac yn aelod o'r Pwyllgor Gweinyddol. Trwy Gymorth Cristnogol a CWM cefais brofiad helaeth o'r Eglwys mewn amryw o amgylchiadau. Yn ogystal â chynrychioli'r Undeb, cefnogi ei weithwyr a chadeirio cyfarfodydd, gwelaf gyfraniad y Llywydd fel un sy'n ysbrydoli a chefnogi mewn cyfnod heriol, ceisio gweld y darlun ehangach a sut y medrwn ni fel Annibynwyr gyfrannu at lawnder bywyd Teyrnas Dduw, yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddiontrwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.